YSGOL DEWI SANT

Dwy iaith dyfodol disglair

Two languages a brighter future

Ysgol Dewi Sant

Ein taith at Gwricwlwm newydd

Gweledigaeth Ysgol Dewi Sant

O dan adain warcheidiol staff Ysgol Dewi Sant ceir y plentyn ei ganoli, er mwyn sicrhau unigolion hapus, iach a hyderus. Trwy barchu pawb a phopeth, rydym yn creu dinasyddion egwyddorol, moesol a gwybodus.

Ein nôd yw darparu cwricwlwm egnïol a chynhwysfawr ble datblygir dysgwyr uchelgeisiol, sydd yn barod i wynebu unrhyw her i'r dyfodol. Rydym yn gosod disgwyliadau uchel o fewn ein cwricwlwm amrywiol a fydd yn cyfrannu at greu unigolion mentrus a chreadigol.

Ein gwerthoedd

Mae holl rhanddeiliaid yr ysgol wedi cael y cyfle i ategu pa werthoedd yr ydym yn eu meithrin yn ein hysgol.

Hyderus

Balchder

Brwdfrydig

Cyfleoedd

Cymreictod

Parch

Unigryw

Mentrus

Cwrteisi

Iach

Creadigol

Beth sydd yn bwysig i ni?

Llais y plentyn	Mae sicrhau bod ein disgyblion yn rhan o'r cynllunio er mwyn perthnasu'r dysgu yn weithdrefn gwerthfawr yn ein hysgol, sydd yn rhoi cyfle i'n disgyblion uniaethu gyda'r gwaith gan gymryd perchnogaeth ohono.
Meddylfryd Tŵf	Mae gweithdrefniadau Meddylfryd Tŵf wedi eu gwreiddio i strategaethau Addysgu a Dysgu ein hysgol gyda'r disgyblion yn deall i ymdrechu, ddyfalbarhau a dysgu o'u camgymeriadau.
Dwyieithrwydd	Mae sicrhau dyfodol i'r iaith Gymraeg yn y Rhyl yn bwysig tu hwnt i staff a disgyblion yr ysgol. Byddwn yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion sicrhau dyfodol i ddwyieithrwydd ar lannau Sir Ddinbych.
Amgylchedd ddysgu ysgogol	Er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion i gyflawni, mae sicrhau amgylchedd ddysgu ysgogol yn hanfodol i ddatblygu amrediad sgiliau sylfaenol y disgyblion.
Llês ac emosiwn ein staff disgyblion	Rydym yn deall rhaid i staff a dysgwyr gael eu cynnal yn emosiynol a chorfforol i berfformio i'w llwyr botensial. Rydym yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi corf a meddwl iach.
Cyfleoedd a Profiadau	Mae sicrhau profiadau a chyfleoedd addysgiadol yn cyfoethogi addysg y dysgwyr. Byddwn yn ymweld, sgwrsio a thrafod gyda unigolion gwadd a chynnal gweithdai i wreiddio cysyniadau a sgiliau''r plant.
Ymfalchio yn ein hardal leol	Byddwn yn ymweld a'r ardal leol er mwyn perthnasu'r dysgu

YSGOL DEWI SANT
DWY IAITH DYFODOL DISGLAIR
TWO LANGUAGES A BRIGHTER FUTURE

Y Pedwar Diben yw craidd ein cwricwlwm yn yr ysgol.

Mae ein gweledigaeth a gwerthoedd yn greiddiol i ddylunio ein cwricwlwm i wireddu'r Pedwar Diben. Drwy gynllunio gofalus ac addysgu o'r safon uchaf byddwn yn meithrin yr isod yn ein disgyblion:

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog... sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau, ac sy'n :	**Cyfranwyr mentrus, creadigol ... sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith, ac sy'n:**	**Dinasyddion egwyddorol, gwybodus ...sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd, ac sy'n:**	**Unigolion iach, hyderus... sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, ac sy'n datblygu:**
• gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain • mwynhau her a datrys problemau • datblygu gwybodaeth a sgiliau a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau • gallu trafod eu dysgu yn hyderus • gallu cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg, • gallu defnyddio mathemateg a rhif a thechnolegau digidol yn effeithiol	• meddwl yn greadigol • cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu, i addasu ac i datrys problemau • adnabod cyfleoedd a manteisio arnynt • hyderus i fentro • arwain a chydweithio mewn timau • mynegi eu syniadau a'u hemosiynau mewn gwahanol ffyrdd • defnyddio eu hegni a'u sgiliau er budd eraill	• ffurfio barn a thrafod materion ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd • deall ac arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol • deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd • gwybod am eu diwylliant a'u cymuned, • gwybod am gymdeithas a'r byd presennol ac yn y gorffennol • parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel aelod o gymdeithas amrywiol • gweld bod ganddynt rôl i'w chwarae i sicrhau cynaladwyedd y blaned	• iechyd a diogelwch corfforol a meddyliol, • cydberthnasau yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth • gwerthoedd personol • sgiliau ac annibyniaeth i ddelio gyda bywyd bob dydd • y gallu i wynebu a goresgyn heriau

Addysgu yn Ysgol Dewi Sant.

Rydym yn sicrhau Addysgu o'r radd uchaf er mwyn gwireddu gofynion y pedwar Diben. Rydym yn ymfalchio yn ein hamgylchedd ddysgu ysgogol, sydd yn gallugoi ein disgyblion i feithrin y sgiliau angenrheidiol ar gyfer mentro, dysgu a gwneud camgymeriadau mewn awyrgylch o gyd barch.

Rydym yn ystyried, yn rhannu ac yn datblygu ein dulliau addysgu'n barhaus, a hynny'n seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r **12 egwyddor addysgegol** a nodir yn Fframwaith y Cwricwlwm ac ar y dulliau yr ydym ni'n eu canfod yn llwyddiannus yn yr ysgol hon.

Y 12 Egwyddor Addysgegol			
1. Canolbwyntio ar wireddu'r 4 diben.	2. Herio dysgwyr a nodi pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus. Cyfleu disgwyliadau uchel ond cyraeddadwy.	3. Defnyddio cymysgedd o ddulliau addysgu.	4. Datblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl yn feirniadol.
5. Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol. Ennyn diddordeb.	6.Creu cyd-destunau dilys.	7. Gweithredu egwyddorion asesu ffurfiannol.	8. Ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd Dysgu.
9. Atgyfnerthu ac ymarfer sgiliau trawsgwricwlaidd - llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.	10. Datblygu dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain a datblygu fel dysgwyr annibynnol.	11. Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol.	12. Hybu cydweithio.

Mae gennym Gymunedau Dysgu rhagweithiol yn yr ysgol sydd yn sicrhau ein bod yn arbrofi a rhannu arferion addysgu da er mwyn sicrhau safonau uchel.

Rydym wedi ymrwymo i ddatbylu'n broffesiynol a byddwn yn ymgymeryd â hyfforddiant rheolaidd i ymateb yn briodol i ofynion y cwricwlwm.

Ymfalchiwn yn y cydweithio agos o fewn yr ysgol ac ar draws y clwstwr er mwyn sicrhau profiadau dysgu a'r addysgu gorau y gallwn ei gynnig i'n dysgwyr

Cynllunio ein Cwricwlwm

Mae ein Cwricwlwm yn canoli'r plentyn drwy sicrhau profiadau eang, gwerthfawr a diddorol. Byddwn yn ennyn eu diddordeb a chwilfrydedd drwy baratoi gweithgareddau safonol. Byddwn yn cynllunio gan ymgorffori'r datganiadau isod. Maent yn ein helpu i wneud yn siŵr bod yr hyn a ddysgir, yn cysylltu â'i gilydd ac yn helpu i symud ein disgyblion ymlaen.

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	Iechyd a Lles	Y Dyniaethau	Mathemateg a Rhifedd	Y Celfyddydau Mynegiannol	Gwyddoniaeth a Thechnoleg
• HSB1 - Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd. • HSB2 - Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. • HSB3 - Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. • HSB4 - Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.	• HSB1 - Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes. • HSB2 - Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol. • HSB3 - Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. • HSB4 - Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles. • HSB5 - Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles	• HSB1 - Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. • HSB2 - Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd. • HSB3 - Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. • HSB4 - Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl. • HSB5 - Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol	• HSB1 - Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau. • HSB2 - Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol. • HSB3 - Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol. • HSB4 - Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.	• HSB1 - Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol. • HSB2 - Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol. • HSB3 - Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.	• HSB1 - Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. • HSB2 - Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas. • HSB3 - Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. • HSB4 - Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau. • HSB5 - Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd. • HSB6 - Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol

Asesu a Chynnydd yn Ysgol Dewi Sant

Mae dilyniant dysgwyr ar hyd continwm dysgu rhwng 3 ac 16 oed yn ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn defnyddio amrywiol strategaethau asesu a fydd yn galluogi pob dysgwr unigol i wneud y cynnydd yn unol a'u gallu gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn briodol.

Byddwn yn datblygu:

- Llês ein dysgwyr
- Parodrwydd ac awydd i ddysgu ein dysgwyr
- Amrediad Sgiliau ein dysgwyr
- Gwybodaeth a dealltwriaeth ein dysgwyr

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

1.Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd drwy asesu ffurfiannol o ansawdd cyson uchel ar lawr dosbarth sydd yn rhoi darlun clir o gyrhaeddiad a chamau nesaf i ddysgwyr ac ymarferwyr.

2. Nodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser

3. Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion

Byddwn yn pennu cyfnodau penodol a rheolaidd i ymarferwyr drafod cynnydd ac anghenion dysgwyr a grwpiau penodol o ddysgwyr drwy ddeialog broffesiynol er mwyn cynllunio ar gyfer cynnydd pellach. Bydd trafodaethau o'r fath hefyd yn hwyluso ac yn hyrwyddo unrhyw drosglwyddo a phontio rhwng dosbarthiadau ac ysgolion. Byddwn yn defnyddio canlyniadau Profion Cenedlaethol a safonedig i gael darlun cyflawn o'r disgybl.

Asesu a Chynnydd yn Ysgol Dewi Sant

Adrodd yn ôl i Rieni.

Mae'r berthynas weithiol rhwng yr ysgol a'n Rhieni a Gwarchodwyr yn graidd i ddatblgiad ein disgyblion.

Byddwn yn sicrhau cyfathrebu a perthnasau effeithiol a chyson drwy:

- Cylchlythyr Wythnosol sydd yn rhannu gwybodaeth ac yn dathlu ein disgyblion.
- Cyfathrebu torfol digidol parhaus drwy Drydar ac Instagram.
- Cyfathrebu drwy Class Dojo fesul dosbarth unigol.
- Nosweithiau Agored i rannu arferion Addysgu a Dysgu staff a disgyblion.
- Nosweithiau Rhieni i drafod cynnydd unigol disgyblion.

YSGOL DEWI SANT

DWY IAITH DYFODOL DISGLAIR

TWO LANGUAGES A BRIGHTER FUTURE